# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 10 Gorffennaf 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(78)v4

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Y dystiolaeth sy'n tanategu'r achos dros ad-drefnu'r GIG yng Nghymru. (30 munud**

**4. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ: Cyflwyno Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (60 munud)**

**5. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol 2011 (30 munud)**

**6. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: y wybodaeth ddiweddaraf am y Gronfa Gymdeithasol (30 munud)**

**7. Rheoliadau Dynodi Nodweddion (Apelau) (Cymru) 2012 (15 munud)**

**NDM5032 Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Rheoliadau Dynodi Nodweddion (Apelau) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y

Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mehefin 2012.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Dynodi Nodweddion (Apelau)(Cymru) 2012
Memorandwm Esboniadol

**8. Dadl ar Rifedd (60 munud)**

**NDM5031 Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) bod rhifedd yn sgil hanfodol;

b) bod angen codi safonau rhifedd ar fyrder gydag ymrwymiad gan bob sector yn y byd addysg i gyflawni’r amcan hwn;

c) bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Rhaglen Rhifedd Genedlaethol i godi’n sylweddol lefelau cyrhaeddiad mewn rhifedd er mwyn cynorthwyo’r sector addysg a dysgwyr i godi safonau rhifedd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt b) newydd ac ail-rifo’r pwyntiau sy'n dilyn:

bod Cymru, o dan asesiad PISA 2009, yn 40fed o blith 67 o wledydd ym maes mathemateg.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu is-bwynt b), a rhoi yn ei le ‘bod angen ymateb ar fyrder i’r hen broblem o safonau rhifedd yng Nghymru, nad yw Gweinidogion addysg blaenorol wedi mynd i’r afael â hi, er mwyn codi safonau rhifedd gydag ymrwymiad gan bob sector yn y byd addysg i gyflawni'r amcan hwn’.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Yn is-bwynt b), ar ôl 'gydag ymrwymiad gan' ychwanegu 'Lywodraeth Cymru a phob'.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

y gydberthynas sy’n parhau rhwng amddifadedd a'r lefelau cyrhaeddiad mewn rhifedd.

**Gwelliant 5 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod safonau rhifedd wedi dirywio, ar ôl deuddeg mlynedd ddi-dor o Weinidogion addysg Llafur mewn grym.

**Gwelliant 6 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y rôl allweddol y gall rhieni a gwarcheidwaid ei chwarae wrth weithio gyda'r sector addysg i wella safonau rhifedd ymysg plant a phobl ifanc Cymru.

**Gwelliant 7 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth fethiant Llywodraethau olynol Cymru i godi safonau rhifedd yng Nghymru yn ddigonol.

**Gwelliant 8 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod safbwynt Llywodraeth Cymru ei bod yn afrealistig disgwyl gwelliannau sylweddol ym mherfformiad Cymru yn yr asesiadau nesaf gan PISA, yn awgrymu nad ydynt ar frys i wella safonau rhifedd yng Nghymru.

**Gwelliant 9 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i bennu targedau clir ar gyfer gwelliannau mewn mathemateg yng nghanlyniadau PISA 2012.

**Gwelliant 10 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r buddsoddiad a ddarparwyd gan y grant amddifadedd disgyblion, a fydd yn helpu i wella lefelau rhifedd mewn ysgolion.

**Gwelliant 11 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ehangu'r grant amddifadedd disgyblion yn ei flwyddyn ganlynol er mwyn parhau i helpu i wella lefelau rhifedd mewn ysgolion.

## Cyfnod Pleidleisio

## 9. Dadl Fer a ohiriwyd ers 27 Mehefin 2012 (30 munud)
NDM5024 Leanne Wood (Canol De Cymru): Arafu’r traffig i sicrhau diogelwch ein plant ysgol

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 11 Gorffennaf 2012